COVID-19 Update 26th March
Here is the latest COVD-19 update from Cardiff Council, covering new weekly waste collections, extra homeless provision, support for local businesses, services for tenants in council homes and Cardiff Bus offers free travel to NHS staff.

Weekly waste collections update

Cardiff is moving to a new, weekly, kerbside-collection which will see all household waste (except garden waste) picked up at the same time.

Collection days for your area will remain the same, but the way waste is handled is changing to help manage the impact of COVID-19 and ensure the wellbeing of both residents and the workforce.

See the earlier Member's Briefing email for full details.

Extra homeless provision

The first clients have moved into the city's OYO hotel, as new plans are revealed to take on a further hotel to increase provision for homeless individuals during the Coronavirus crisis.

The Council announced earlier this week that it had secured additional accommodation at the OYO Hotel on Clare Street in Riverside, for rough sleepers and those living in emergency accommodation, where individuals sleep in shared spaces and self-isolation is not possible.

This new accommodation will enable any individuals with underlying health conditions, or who are showing symptoms of Coronavirus COVID-19, to be able to self-isolate.

Last night, 22 clients spent their first night at the OYO hotel, which also provides three meals a day for residents, and has support staff available around the clock to ensure the provision is safe and appropriate advice and help is always available.

A second hotel, providing 89 beds, will open next week to provide more individuals with a safe and secure place to self-isolate and recover. As with the OYO Hotel and shipping container accommodation, the YHA Cardiff Central hostel building in Tyndall Street Splott, will have support on site 24-hours a day.

Grants to support local business

The Welsh Government has recently announced a £1.4 billion support package for businesses in Wales to help combat the economic impact of Coronavirus (COVID-19).

All retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value of £500,000 or less will receive 100% non-domestic rates relief for 2020-21. This will be administered automatically through the Council's Rate Scheme and will apply automatically.

In addition to the business rate relief scheme, the Welsh Government has announced that an additional £850m will be made available through a new grant scheme for businesses.

This will mean that all businesses, which are currently eligible for Small Business Rates relief, that is those with a rateable value up to £12,000, will receive a grant of £10,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined.

Retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value between £12,001 and £50,000 will receive a grant of £25,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined.

Services for Council Tenants

The priority is to keep tenants and staff safe at this very difficult time and this means some changes to services have had to be made.

Repairs
To ensure a service to tenants with the greatest need, only emergency repairs will be carried out and tenants should only contact us about a repair if it is an emergency.
For non-emergency repairs, tenants should contact us week commencing 15th June onwards when it is anticipated the service will be able to respond to these repairs once again.
Existing appointments for non-urgent repairs are suspended until after 15 June.

Exchanges and Transfers
No further exchanges will go ahead at this time and only urgent transfers will take place.

Rent Payments
Tenants experiencing problems with rent payments at this difficult time should get in touch to discuss.

Tenancy and Anti-social behaviour issues
Home visits will take place only in very urgent cases. Issues will be resolved by telephone as far as possible.

Cleaning of Communal Areas of Flats
Routine cleaning of low rise flats will also be suspended and bulky waste collection may be delayed.

Tenant Participation
All meetings organised by the Council are being suspended. We strongly advise that all groups suspend their meetings.

Cardiff Bus offers free travel for NHS staff

From today (Thursday 26 March), until further notice, to support those NHS workers at the frontline in the fight against the Coronavirus pandemic, NHS staff will be able to travel for free on Cardiff Bus. When boarding the bus, NHS staff showing valid ID to the driver travel for free.

Diweddariad COVID-19 26 Mawrth
Dyma'r diweddariad COVD-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, yn ymdrin â chasgliadau gwastraff wythnosol newydd, darpariaeth ychwanegol ar gyfer y digartref, cymorth i fusnesau lleol, gwasanaethau i denantiaid tai cyngor, a staff y GIG yn cael teithio am ddim gyda Bws Caerdydd.

Diweddariad ar gasgliadau gwastraff wythnosol

Mae Caerdydd yn symud i drefn newydd wythnosol o gasglu gwastraff ymyl y ffordd a chaiff yr holl wastraff cartref (ac eithrio gwastraff gardd) ei gasglu ar yr un pryd.

Bydd y diwrnodau casglu ar gyfer eich ardal yn aros yr un fath, ond mae'r ffordd y caiff gwastraff ei drin yn newid i helpu i reoli effaith COVID-19 a sicrhau lles y preswylwyr a'r gweithlu.

Mae manylion llawn am hyn yn yr e-bost Briffio Aelodau a anfonwyd yn gynharach.

Darpariaeth ddigartrefedd ychwanegol
Mae'r cleientiaid cyntaf wedi symud i mewn i westy OYO y ddinas, wrth i gynlluniau newydd gael eu datgelu i ddefnyddio gwesty arall i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion digartref yn ystod argyfwng Coronafeirws.

Cyhoeddodd y Cyngor yn gynharach yr wythnos hon ei fod wedi sicrhau llety ychwanegol yng Ngwesty OYO ar Stryd Clare yng Nglan-yr-afon, ar gyfer pobl sy'n cysgu allan a'r rhai sy'n byw mewn llety brys, lle mae unigolion yn cysgu mewn lleoedd a rennir ac nad yw'n bosibl ynysu eu hunain.

Bydd y llety newydd hwn yn galluogi unrhyw unigolion â chyflyrau iechyd sylfaenol, neu sy'n dangos symptomau Coronafeirws COVID-19, i allu hunan-ynysu.

Neithiwr, treuliodd 22 o gleientiaid eu noson gyntaf yng ngwesty OYO, sydd hefyd yn darparu tri phryd y dydd i breswylwyr, ac mae staff cymorth ar gael i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel ac mae cyngor a chymorth priodol ar gael bob amser.

Bydd ail westy, sy'n darparu 89 o welyau, yn agor yr wythnos nesaf i roi lle diogel i fwy o unigolion hunan-ynysu ac adfer. Yn yr un modd â Gwesty OYO a llety cynwysyddion llongau, bydd gan adeilad hostel YHA Caerdydd Canolog ar Stryd Tyndall, Sblot, gefnogaeth ar y safle 24 awr y dydd.

Grantiau i gefnogi busnesau lleol

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth gwerth £1.4 biliwn i

fusnesau yng Nghymru er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effaith economaidd Coronafeirws (COVID-19).

Bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd a gwerth ardrethadwy o £500,000 neu lai yn derbyn rhyddhad o 100% ar ardrethi annomestig ar gyfer 2020-21. Bydd hyn yn cael ei weinyddu'n awtomatig drwy Gynllun Ardrethi'r Cyngor a chaiff ei weithredu'n awtomatig.

Yn ogystal â'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd £850m ychwanegol ar gael drwy gynllun grant newydd i fusnesau. Bydd hyn yn golygu y bydd pob busnes, sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychan, hynny yw y rheiny sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000, yn derbyn grant o £10,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.

Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 yn derbyn grant o £25,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.

Gwasanaethau ar gyfer Tenantiaid y Cyngor

Y flaenoriaeth yw cadw tenantiaid a staff yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn ac mae hyn yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud rhai newidiadau i wasanaethau.

Atgyweiriadau
Er mwyn sicrhau gwasanaeth i'r tenantiaid sydd â'r angen mwyaf, dim ond gwaith atgyweirio brys fydd yn cael ei wneud, a dylai tenantiaid gysylltu â ni ynghylch atgyweiriad ddim ond os yw'n argyfwng. Ar gyfer atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys, dylai tenantiaid gysylltu â ni yn ystod yr wythnos yn dechrau 15 Mehefin ymlaen, pan ragwelir y bydd y gwasanaeth yn gallu ymateb i'r atgyweiriadau hyn unwaith eto.
Caiff apwyntiadau presennol ar gyfer atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys eu hatal tan ar ôl 15 Mehefin.

Trosglwyddiadau a Chyfnewidiadau
Ni fydd unrhyw gyfnewid pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a dim ond trosglwyddiadau brys a fydd yn digwydd.

Taliadau Rhent
Dylai tenantiaid sy'n cael problemau gyda thaliadau rhent ar yr adeg anodd hon gysylltu i drafod.

Materion yn ymwneud â Thenantiaeth ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Dim ond mewn achosion o frys mawr y bydd ymweliadau cartref yn digwydd. Bydd materion yn cael eu datrys dros y ffôn cyn belled ag y bo modd.

Glanhau Ardaloedd Cymunedol Fflatiau
Bydd y gwaith rheolaidd o lanhau fflatiau tyrau isel yn cael ei atal a gallai casgliadau gwastraff swmpus gael eu hoedi.

Cynnwys Tenantiaid
Mae pob cyfarfod sydd wedi ei drefnu gan y Cyngor wedi ei atal. Cynghorwn yn gryf y dylai pob grŵp atal eu cyfarfodydd.

Staff y GIG yn cael teithio am ddim gyda Bws Caerdydd

O heddiw ymlaen (dydd Iau 26 Mawrth), a hyd nes y cyhoeddir yn wahanol, bydd staff y GIG yn gallu teithio am ddim gyda Bws Caerdydd, mewn ymdrech i gefnogi'r gweithwyr hynny yn y GIG sydd yn y rheng flaen yn y frwydr yn erbyn y pandemig coronafeirws, Bydd staff GIG sy'n dangos Cerdyn Adnabod dilys i'r gyrrwr yn cael teithio am ddim.